

Meini Prawf y Gronfa:

Cronfa Croeso Cenedl Noddfa



Mae Cronfa Croeso Cenedl Noddfa'n darparu cefnogaeth hanfodol ar gyfer pobl sydd wedi'u dadleoli gan wrthdaro a / neu erledigaeth ac sy'n chwilio am noddfa* yng Nghymru.

Mae'n well gan Ddinas Noddfa y term 'pobl yn chwilio am noddfa' yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, gan ei fod yn canolbwyntio ar bobl yn gyntaf yn hytrach na'u statws mewnfydo. Mae'n pwysleisio fod pobl yn **chwilio am noddfa (diogelwch ac amddiffyniad), nid lloches yn benodol ac felly gellir ei ddefnyddio'n ehangach.*

Mae'r gronfa hon hefyd yn gronfa codi arian gyda'r bwriad o gefnogi pobl sy'n chwilio am noddfa nawr ac yn y dyfodol. Bydd holl roddion i'r gronfa hon yn cefnogi elusennau Cymru, grwpiau cymunedol a sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda phobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru, i ddarparu cymorth hanfodol i'w helpu i setlo i mewn i'w amgylchiadau newydd.

Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau oddi wrth grwpiau sy'n gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gref o weithio o fewn y maes hwn yn y tymor hirach. Ni all y Gronfa hon gefnogi grwpiau'n gweithio o fewn cymunedau neu grwpiau lleiafrifol sydd eisoes wedi'u sefydlu ac wedi'u setlo ac sydd eisieu gweithio gyda phobl yn chwilio am noddfa, nad oes ganddynt eisoes record amlwg o wneud hynny.

Rydym wedi siarad gyda grwpiau'n gweithio yn y maes hwn ac wedi agor arolwg i sicrhau fod y meini prawf ar gyfer y Gronfa hon yn adlewyrchu'r anghenion mwyaf hanfodol y bobl sy'n chwilio am noddfa. Bwriad y Gronfa hon yw llenwi bylchau ble nad oes arian fel arall ar gael, neu pan fo cynnydd yn y gofyn yn dystiolaeth o'r angen i ehangu gwasanaeth.

Rydym yn gwybod fod y sefyllfa'n ansefydlog ac yn newid o hyd, bydd yr arolwg felly'n aros ar agor gyda'r wybodaeth newydd yn dylanwadu ar addasiadau i'r meini prawf. Rydym yn eich annog i ychwanegu'ch llais chi trwy gwblhau'r arolwg neu gysylltu â'r tîm trwy e-bost os oes gennych unrhyw gwestiynau neu wybodaeth a fydd o gymorth i wella'n dealltwriaeth -

grants@communityfoundationwales.org.uk

Mae'n dealltwriaeth wedi amlygu'r anghenion cynyddol a mwyaf brys pobl sy'n chwilio am noddfa sef:

- Talu sylw i'r trawma maen nhw'n ei wynebu wrth ddarparu cefnogaeth emosiynol i wella iechyd meddwl a llesiant
- Cefnogaeth gydag integreiddio a synnwyr o berthyn

Felly, mae Cronfa Croeso Cenedl Noddfa'n derbyn ceisiadau oddi wrth grwpiau sydd eisoes yn gweithio gyda phobl yn chwilio am noddfa er mwyn darparu gwasanaethau cefnogi i dalu sylw i'r problemau hyn. Er enghraifft:

- Gwasanaethau cyfeillio
- Gwasanaethau cyfieithu / iaith
- Gweithgareddau cymunedol / hwb ar gyfer pobl yn chwilio am noddfa a'u teuluoedd i ddod ynghyd
- Cefnogaeth trawma / emosiynol
- Cefnogaeth llinell blaen ychwanegol i ateb y gofyn cynyddol

DS. Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysol - ei bwriad yw dangos y *math* o brosiectau y bydd y gronfa hon yn eu cefnogi.

Y grantiau sydd ar gael

Gall sefydliadau ymgeisio am grantiau o hyd at £50,000 y flwyddyn i gefnogi gwaith cysylltiedig â chostau sy'n cefnogi pobl yn chwilio am noddfa o fewn y themâu a nodir uchod.

Cofiwch - ni ddylai'r swm rydych yn ymgeisio amdano fod yn fwy nag 20% o'ch trosiant blyneddol yn y set ddiweddaraf o gyfrifon cyhoeddedig.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw bod grwpiau'n allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael sicrwydd fod arian ar gael yn gallu rhoi'r hyder a sicrwydd i chi i ddatblygu'ch prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Croeso Cenedl Noddfa'n cynnig y cyfle i grwpiau ymgeisio am arian ar gyfer un flwyddyn yn unig neu nifer o flynyddoedd hyd at 3 blynedd.

I gael eich ystyried ar gyfer grant tair blynedd, dylech gwblhau'r adran ychwanegol ar y ffurflen gais i ddangos sut rydych yn bwriadu datblygu'ch prosiect dros y cyfnod ariannu yr ymgeisir amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried ar gyfer cyllid un flwyddyn os na fyddwch yn llwyddiannus am grant nifer o flynyddoedd.

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Mae'r Gronfa hon ar agor ar gyfer elusennau a sefydliadau cymunedol gyda chyfansoddiad yn benodol ar gyfer gweithio gyda phobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grwpiau gyda chyfansoddiad
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmnïau cyfyngedig gan warant
- Cwmnïau buddiannau cymunedol
- Mentrau cymdeithasol

Gwybodaeth Bwysig i Sefydliadau sy'n Ymgeisio: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a chyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol. Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

Ni allwn ariannu ar hyn o bryd

- Prosiectau bwrsari sy'n darparu grantiau / arian parod / offer yn y dyfodol i unigolion
- Grwpiau sydd **ond** yn gweithio gyda buddiolwyr BAME ac nid yn benodol i bobl sy'n chwilio am noddfa - mae gennym gronfa ar wahân ar gyfer grwpiau BAME. Cewch ddarllen amdani [yma](#).
- Prosiectau bwyd / cyflenwadau / offer / dillad ble mae eitemau'n cael eu dosbarthu i unigolion / teuluoedd – mae gennym gronfeydd eraill ar gyfer rheini. Cewch wybodaeth am gyllid arall sydd ar gael ar ein tudalen grantiau [yma](#).
- Prosiectau sy'n dyblygu gwasanaethau statudol

Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais ar lein sydd ar gael ar ein gwefan.

Noder:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau
- Nid yw grantiau ar gael fel arfer ar gyfer codi arian nac i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig, oni bai bod cyllid ar gyfer nifer o flynyddoedd yn cael ei ddyfarnu.

Gwybodaeth bwysig am feini prawf y gronfa

Gallai meini prawf y gronfa hon newid.

Er mwyn sicrhau fod yr arian yn mynd ble mae gwirioneddol ei angen, rydym yn ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n cefnogi'n uniongyrchol bobl wedi'u dadleoli gan wrthdaro a / neu erledigaeth ac sy'n chwilio am noddfa i asesu eu hanghenion presennol ac ymlaen ar ôl hynny.

Byddwn mor hyblyg â phosibl i sicrhau fod arian yn cyrraedd y sefydliadau hynny gynted â bo'n bosibl, a allai olygu ein bod angen newid meini prawf y gronfa yn y dyfodol.